

Adroddiad Gwerthuso Blwyddyn 1 Wavehill Consulting: Argymhellion ac Ymatebion

	Argymhellion	Ymateb y Bwrdd
	Adborth gan Ymgeiswyr am Grantiau	
1.	<i>Sicrhau bod yr adborth a roddir i ymgeiswyr aflwyddiannus mor glir a defnyddiol â phosibl.</i>	<p>Rydym wedi gweithio'n galed i wella'r adborth i ymgeiswyr dros y flwyddyn ddiwethaf a byddwn yn parhau i wneud hynny. Mae'r ffaith bod cynnig wedi'i wrthod yn siomedig a gwyddom y bydd llawer o waith wedi'i wneud. Rydym yn deall pa mor bwysig yw hi bod rhesymau'n glir, a bod cyngor yn cael ei gynnig ar gyfer unrhyw gyflwyniadau yn y dyfodol.</p> <p><i>Rydym yn croesawu adborth ar hyn. Os cewch eich gwrthod a'ch bod yn teimlo nad oeddem yn glir wrth esbonio'r rhesymau pam, rhowch wybod i ni.</i></p>
2.	<i>Ystyried gofyn am ragor o wybodaeth ac yna ymgymryd ag asesiad mwy cadarn o geisiadau'r Gronfa Weledigaeth ar y cam 'mynegi diddordeb' fel y gellir gwrthod prosiectau sy'n annhebygol o gael eu hariannu cyn i swm sylweddol o waith gael ei wneud ar ddatblygu'r cais llawn.</i>	<p>Unwaith eto, mae'r Bwrdd a'r aelodau o staff yn gweithio i wella adborth ac asesiadau cyfnod cynnar er mwyn sicrhau bod ymgeiswyr yn glir ynghylch yr hyn sydd ei angen.</p>
3.	<i>Ystyried gwahodd Ymgeiswyr am Grantiau Gweledigaeth i gyfarfod i gyflwyno eu cais.</i>	<p>Arweiniodd adolygiad rheoli'r Gronfa Weledigaeth at strwythur ymgeisio ac asesu newydd. Mae tri chategori bellach:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. <i>£5,001-£24,999: bydd ceisiadau fel arfer yn cael eu hystyried ddwywaith y flwyddyn yn unol â rowndiau MF (cais un cam)</i> 2. <i>£25,000-£149,999: mae'r rhan fwyaf o'r grantiau yn yr ystod hon – asesiadau cystadleuol 3 gwaith y flwyddyn (cais 2 gam)</i> 3. <i>£ 150000 + – eithriadol – gellir cael prosesau asesu ychwanegol a fydd yn golygu cynnal cyfarfodydd â'r Bwrdd/rhoi cyflwyniadau iddo</i>

		(cais 2 gam)
Bwrdd CBC		
4.	<i>Mae angen i'r broses o recriwtio aelodau'r Bwrdd yn y dyfodol ystyried yr angen am amrywiaeth.</i>	<p>Egwyddorion Allweddol Polisi Olyniaeth y CBC:</p> <ul style="list-style-type: none"> - mae'r weithdrefn recriwtio yn dryloyw ac yn agored, ac mae'n cydymffurfio'n llawn â pholisi cyfle cyfartal y CBC - mae penderfyniadau penodi yn seiliedig ar sgiliau ac addasrwydd ymgeiswyr ac anghenion cyfredol y CBC - Mae o leiaf ddwy ran o dair o Aelodau'r Bwrdd yn byw neu'n gweithio yn ardal buddiant y Gronfa - Rhaid i bob Cyfarwyddwr a benodir feddu ar ddealltwriaeth fanwl am ardal buddiant y Gronfa - Mae gan bob Cyfarwyddwr ddisgrifiadau rôl cyfredol, ac mae aelodau newydd yn cael cyflwyniad trwyadl i fusnes ac ymarfer CBC - cynhelir arfarniadau'n flynyddol (o berfformiad unigol a chyfunol y Bwrdd) - mae cyfleoedd hyfforddi a datblygiad proffesiynol ar gael i bob aelod
5.	<i>Mae angen ystyried dulliau o fynd i'r afael â bylchau yn aelodaeth y Bwrdd, o bosibl y tu hwnt i ychwanegu Cyfarwyddwyr at y Bwrdd e.e. sefydlu byrddau cynghori neu banel pobl ifanc i asesu ceisiadau gan grwpiau ieuenctid.</i>	<p>Cyn ac ar ôl ymarfer recriwtio i'r Bwrdd, bydd Archwiliad Sgiliau yn cael ei gynnal i nodi arbenigedd cyfredol (yn erbyn rhestr gytunedig a gaiff ei diweddarau'n rheolaidd) ac unrhyw fylchau y mae angen mynd i'r afael â nhw.</p> <p>Bydd y broses o sefydlu panel ieuenctid yn cael ei harchwilio a'i datblygu yn 2020.</p>
6.	<i>Dylid archwilio'r posibilrwydd o sefydlu is-grwpiau ychwanegol i'r prif Fwrdd i archwilio materion penodol (gan adrodd yn ôl i'r prif Fwrdd).</i>	<p>Mae Is-bwyllgor Adnoddau Dynol ac Is-bwyllgor Cronfeydd Micro ill dau wedi'u sefydlu, gan helpu i sicrhau bod cyfarfodydd llawn o'r Bwrdd yn effeithlon ac yn meddu ar ffocws.</p>

Adnoddau ar lefel Staff/Gweithredol – sicrhau bod adnoddau ar gael i ddatblygu materion strategol:	
<p>7. <i>Dylid archwilio'r angen i gyflogi neu gontractio aelodau ychwanegol i dîm Pen y Cymoedd. Fel rhan o hyn, dylid ystyried:</i></p> <p><i>a) Opsiynau ar gyfer rhyddhau'r Cyfarwyddwr Gweithredol o'r gweithgareddau 'cymorth i ymgeiswyr' sy'n cael eu cynnal (er mwyn caniatáu i weithgareddau eraill gael eu cynnal); a</i></p> <p><i>b) Datblygu cronfa ddata o arbenigwyr/ymgynghorwyr allanol y gellir eu cynnwys yn ôl yr angen i helpu i asesu ceisiadau/darparu arbenigedd technegol.</i></p>	<p>Mae swydd staff newydd yn cael ei chreu yn gynnar yn 2020 i hwyluso cymorth i fusnesau sy'n bodoli eisoes (cymdeithasol a masnachol) a busnesau sy'n dechrau.</p> <p>Mae cronfa ddata o arbenigwyr ac ymgynghorwyr allanol yn cael ei datblygu.</p>
Bod yn fwy Rhagweithiol/Strategol	
<p>8. Ystyried opsiynau i gynyddu nifer y camau gweithredu 'rhagweithiol' sy'n cael eu cymryd i annog datblygu camau/prosiectau sy'n bwysig yn strategol.</p>	<p>Mae hyn yn cysylltu â'r adnoddau gweithredol sydd ar gael (gweler 7 uchod) a bydd yn datblygu wrth i ragor o wybodaeth leol gael ei chofnodi drwy, e.e. Proffiliau Cymunedol a datblygu cynlluniau strategol rhanbarthol a thematig.</p> <p>Cytunwyd hefyd, pan nodir bylchau sylweddol mewn gwasanaethau, y byddwn yn neilltuo arian ac yn gwahodd ceisiadau thematig, cystadleuol y tu allan i'r rhaglen ymgeisio arferol.</p>
<p>9. Ystyried opsiynau ar gyfer gwella cysondeb y broses o wneud penderfyniadau cyson ar lefel Bwrdd a chaniatáu i Aelodau'r Bwrdd ailedrych ar y rhesymwaith dros geisiadau blaenorol a ystyriwyd (a gymeradwywyd ac a wrthodwyd) a'r penderfyniadau a wnaed.</p>	<p>Mae cyfres o Ganllawiau i Ymgeiswyr ar gael (ac yn cael ei diweddarau'n rheolaidd a'i hychwanegu ati) i adlewyrchu dulliau a pholisi cytunedig mewn perthynas â materion penodol.</p> <p>Caiff cronfa ddata ei llunio i gofnodi rhesymwaith y penderfyniadau a'r pwyntiau a all lywio'r canllawiau i ymgeiswyr.</p> <p>Mae'r rhesymau dros bob penderfyniad yn cael eu nodi'n fanwl, eu cofnodi a'u cytuno ym mhob cyfarfod Bwrdd.</p>